# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN DYDD MERCHER, 16EG TACHWEDD 2016 AM 2.00PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd K. V. Reynolds – Cadeirydd

Cynghorwyr:

Mrs C. Forehead (Adnoddau Dynol a Llywodraethu/Rheoli Busnes),N. George (Gwasanaethau Hamdden a Chymunedol), D. Hardacre (Perfformiad a Rheoli Asedau), Mrs B. Jones (Gwasanaethau Corfforaethol), D.V. Poole (Dirprwy Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros Dai), T.J. Williams (Priffyrdd, Cludiant a Pheirianneg), R. Woodyatt (Gwasanaethau Cymdeithasol).

Ar y cyd gyda:

C. Burns (Prif Weithredwr Dros dro), C. Harrhy (Cyfarwyddwraig Corfforaethol - Cymunedau), N. Scammell (Cyfarwyddwraig Weithredol Gwasanaethau Corfforaethol Dros Dro a Swyddog Adran 151) a D.Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol).

Hefyd yn Bresennol:

S. Harris (Pennaeth Cyllid Corfforaethol Dros Dro), C. Jones (Pennaeth Perfformiad ac Eiddo) a C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor)

### 1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr D. Havard a K. James.

### 2. DATGANIADAU DIDDORDEB

Ni chafwyd datganiadau o ddiddordeb ar ddechrau nac yn ystod y cyfarfod.

### 3. CABINET - 2IL TACHWEDD 2016

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2il Tachwedd 2016 (rhifau cofnod. 1- 8) i'w cymeradwyo a'u llofnodi fel yn gofnod cywir.

### 4. PANEL YMGYNGHOROL CENEDLAETHAU'R DYFODOL A GYNHALIWYD AR 9FED Mehefin 2016 .

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion Panel Ymgynghorol Cenedlaethau'r Dyfodol Ymgynghorol a gynhaliwyd ar 27ain Mehefin 2016 ( rhifau cofnod. 1 - 7) i nodi.

**MATERION SYDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**5. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB REFENIW AWDURDOD CYFAN CANOL-BLWYDDYN 2016/17**

Mae'r adroddiad yn rhoi manylion o wariant cyllideb refeniw awdurdod cyfan a ragwelir ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016/17 ac yn rhoi diweddariad ar gynnydd o ran cyflawni arbedion a gymeradwywyd ar gyfer 2016/17.

Mae'r adroddiad yn rhoi gwybodaeth am sefyllfa'r awdurdod cyfan mewn perthynas â monitro'r gyllideb refeniw ar gyfer 2016/17. Mae adroddiadau monitro cyllideb fanwl yn cael eu paratoi ar gyfer Pwyllgorau Craffu drwy gydol y flwyddyn ariannol. Rhoddwyd ystyriaeth i'r tueddiadau gwariant ac incwm yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn a gwnaed rhagamcanion o'r sefyllfa alldro tebygol ar ddiwedd y flwyddyn. Lle nodwyd amrywiadau oddi wrth y gyllideb gwnaed sylwadau arnynt drwy'r adroddiad.

Nododd y Cabinet fod yr adroddiad hefyd yn rhoi manylion am y cynnydd o ran cyflawni arbedion cyllideb refeniw a gymeradwywyd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016/17 ac amlygodd y meysydd hynny lle nad yw arbedion yn dod yn eu blaen fel y bwriadwyd yn wreiddiol.

Diolchodd yr Aelodau i'r Swyddog am yr adroddiad manwl a nodwyd nad oedd pob un o'r cynigion arbedion wedi eu cyflawni. Mae cyfnod heriol i ddod a bydd cyllidebau'n cael eu tynhau. Mae'r adroddiad yn dangos rheolaeth ariannol effeithiol o fewn yr Awdurdod a diolchodd yr Aelodau i'r holl staff am eu hymdrechion o ran bodloni gofynion arbedion.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog: -

(i) i nodi'r adroddiad;

(ii) i gytuno â'r cynnig i ddefnyddio cronfa wrth gefn Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n gyfanswm o £248 mil, fel y manylir yn 4.4.9 o'r adroddiad, i ariannu nifer o swyddi dros-dro i gymryd rhan mewn prosiectau trawsnewidiol;

(iii) i gymeradwyo rhyddhau £800 mil o'r £1.6miliwn sydd yng nghronfa wrth gefn rheoli gwastraff i wrthbwyso pwysau costau yn rhannol yn 2016/17;

(iv) i argymell ni ddylid clustnodi'r tanwariant o £230 mil ar gyfer Mynwentydd ac yn lle hynny ei gynnwys o fewn y gyllideb sylfaenol i wrthbwyso'n rhannol pwysau cyllidebol eraill o fewn yr Is-adran Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden

**6. TIR YM MAES PARCIO STRYD Y FELIN, RHISGA**

Darparodd yr adroddiad fanylion y cynnig i waredu tir yn Stryd y Felin, i'r Grŵp Pobl ar gyfer y Cabinet. Hysbyswyd yr Aelodau fod y tir ym Maes Parcio Stryd y Felin, Rhisga yn ffurfio rhan o safle ailddatblygu posibl a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu Canol Tref Rhisga a Phontymister (Cymeradwywyd 2014). Mae'r safle mewn lleoliad amlwg ar y gyffordd gyda Stryd y Felin a'r Stryd Fasnachol, wrth y fynedfa ddeheuol i'r dref. Mae Pobl (Landlord Cymdeithasol Cofrestredig) wedi cysylltu â'r ddau dirfeddiannwr (y Cyngor a thrydydd parti), gyda'r bwriad o ail-ddatblygu'r safle cyfan gyda thai fforddiadwy a thai â chymorth.

Bydd cael gwared ar y safle yn cynhyrchu derbyniad cyfalaf, yn ogystal ag arbedion refeniw i'r Cyngor a'i bartneriaid statudol. Rhagwelir y bydd yr arbedion sylweddol mewn costau rhagamcanol dros gyfnod o 20 mlynedd o gyflwyno'r cynllun tai â chymorth. Yn ogystal, mae

angen sylweddol am dai fforddiadwy ledled y Fwrdeistref Sirol. Mae Pobl wedi paratoi cynllun ar gyfer y safle, gan nodi cymysgedd o eiddo sy'n ceisio mynd i'r afael ag anghenion tai o fewn yr ardal sy'n cynnwys prosiect llety byw â chymorth rhanbarthol.

Nododd y Cabinet y cynhaliwyd cryn ymgynghori o fewn yr ardal a chodwyd rhai gwrthwynebiadau o ganlyniad i'r angen am faes parcio a'r defnydd o'r maes parcio fel man gollwng ar gyfer yr ysgol fabanod. Yn ogystal, mynegwyd pryderon ynghylch pwysau cynyddol ar yr ysgol a darpariaeth iechyd yn yr ardal. Sicrhaodd y Swyddogion yr Aelodau bod yna ddigon o barcio yn yr ardal, gyda'r defnydd o feysydd parcio eraill a pharcio ar y stryd. Wrth gyfeirio at y ddarpariaeth ysgolion ac iechyd, nodwyd bod digon o leoedd ysgol a bod meddygfa Wellspring wedi cadarnhau eu bod wedi cynyddu capasiti.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog: -

(i) i drosglwyddo'r tir a ddangosir ag ymyl du ar y cynllun gyda'r adroddiad am £50,000 (ac fel arall ar delerau i'w cytuno) i'r Grŵp Pobl;

(ii) bod telerau manwl y gwaredu yn cael ei ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaethau Eiddo ar y cyd â'r Aelod Cabinet Perfformiad a Rheoli Asedau, at y dibenion a nodir yn yr adroddiad.

## 7. CYMERADWYO'R LLAWLYFR AROLYGU PRIFFYRDD

Mae'r adroddiad, a gafodd ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd ar 1af Tachwedd 2016, yn amlinellu cefndir a chynnwys y Cynllun Cynnal a Chadw Priffyrdd a'r Llawlyfr Arolygu Priffyrdd ac yn esbonio'r broses y mae'r rhain yn cael eu hadolygu'n fewnol yn flynyddol ac yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu bod gan y Cyngor ddyletswydd statudol i gadw rhwydwaith ffyrdd diogel fel y nodir o dan Ddeddf Priffyrdd 1980. Mae'r Cynllun Cynnal a Chadw Priffyrdd yn un o dri chynllun sy'n ffurfio'r Fframwaith Grŵp Gweithrediadau Priffyrdd, y lleill oedd y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd a'r Cynllun Gweithrediadau Priffyrdd. Mae'r Llawlyfr Arolygu Priffyrdd yn ffurfio rhan o'r Cynllun Cynnal a Chadw Priffyrdd ac mae'n nodi'r prosesau a'r gweithdrefnau i archwilio, adrodd ac ymgymryd â'r camau angenrheidiol a chofnodi'r gwaith a wneir ar asedau ffyrdd cerbydau a throedffyrdd. Mae'n ffurfio sail amddiffyniad cyfreithiol y Cyngor yn erbyn hawliadau yswiriant, ar gyfer anaf personol a difrod i eiddo/cerbydau, a wnaed ar y briffordd.

Nodwyd bod y Llawlyfr Arolygu Priffyrdd wedi ei rannu'n 4 rhan, sy'n cynnwys cefndir, gwybodaeth polisi a gweithdrefnau arolygu. Mae'r Llawlyfr Arolygu Priffyrdd yn destun adolygiad blynyddol, roedd angen adolygu nifer o adranau, sef amseroedd ymateb ar gyfer namau priffyrdd, amlder arolygu a meini prawf ymyrryd, a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor Craffu i'w hystyried.

Cymeradwyodd y Pwyllgor Craffu'r adroddiad ac argymhellodd ei dderbyn gan y Cabinet.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog: -

(i) gadw'r targedau 2 awr, 24 awr a 28 diwrnod ar gyfer cynnal diffygion priffyrdd gyda'r rheolaeth ar gyfer lefel presennol y gwasanaeth yn cael ei fonitro'n agos, yn enwedig y targedau 28 diwrnod ar gyfer Blaenoriaeth 3 (nam a nodwyd nad yw'n frys);

(ii) i gadw lefelau arolygu presennol;

(iii) i gadw'r meini prawf cyfredol ar gyfer ymyrraeth ar ddiffygion ffyrdd a throedffyrdd;

(iv) y dylid cymeradwyo'r Llawlyfr Arolygu Priffyrdd fel y'i hatodwyd i'r adroddiad, yn ddarostyngedig i'r uchod.

**ARGYMHELLION I'R CYNGOR**

**8. CYMERADWYO CYNLLUN RHEOLI ASEDAU PRIFFYRDD**

Mae'r adroddiad, a gafodd ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd ar 1af Tachwedd 2016, yn amlinellu cefndir a chynnwys y Fframwaith Grŵp Gweithrediadau Priffyrdd a Chynllun Rheoli Asedau Priffyrdd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a'r broses a ddefnyddir ar gyfer ei adolygu'n fewnol yn flynyddol. Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet, cyn ei gyflwyno i'r Cyngor.

Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i gadw rhwydwaith ffyrdd diogel fel y nodir o dan Ddeddf Priffyrdd 1980. Mae'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd CBSC yn un o dri chynllun sy'n ffurfio Fframwaith Grŵp Gweithrediadau Priffyrdd, y lleill yw'r Cynllun Cynnal a Chadw Priffyrdd a'r Cynllun Gweithrediadau Priffyrdd. Mae'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd yn ddull strategol sy'n nodi'r holl asedau priffyrdd sy'n gyfrifoldeb yr awdurdod priffyrdd (y Cyngor). Mae'n asesu statws priffyrdd a'u cyflwr, ac yn penderfynu a gweithredu'r drefn gynnal a chadw mwyaf addas o fewn y paramedrau cost mwyaf effeithlon.

Nodwyd bod y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd yn ddogfen gwaith sydd wedi'i rhannu'n 4 rhan, sy'n rhestru'r asedau priffyrdd gyda'r wybodaeth a'r data perthnasol ar gyfer eu gofynion adnabod a chynnal a chadw, ac mae'n cael ei ddiweddaru drwy nifer o sianeli cyfathrebu ac adborth.

Cymeradwywyd yr adroddiad gan y Pwyllgor Craffu ac argymhellwyd ei dderbyn gan y Cabinet a'r Cyngor.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog: -

(i) i gymeradwyo'r cynnwys a'r broses adolygu flynyddol ar gyfer y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd a'r agweddau allweddol a gynhwysir ynddo (sef lleoli'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd o fewn y Fframwaith Grŵp Gweithrediadau Priffyrdd, y sylw a roddir i bob agwedd ar reoli asedau priffyrdd gan y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd, a'r nodi o sianelau cyfathrebu priodol mewn perthynas ag asedau priffyrdd);

(ii) i gymeradwyo’r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd, fel yr atodwyd at yr adroddiad, yn ddarostyngedig i'r uchod.

Terfynwyd y cyfarfod am 2.40pm

Cymeradwywyd a Llofnodwyd ei fod yn gofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhelir ar 30ain Tachwedd 2016.

---

CADEIRYDD